

Teitl:	Syrfëwr Adeiladu
Lleoliad:	Gweithiwr Ystwyth
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol
Rhif y Swydd:	BG01162
Cyflog:	Gradd 8 (£38,223 - £42,403 y flwyddyn)
Oriau:	37 awr yr wythnos
Contract:	Parhaol

Crynodeb o'r Swydd

Mae swydd barhaol wedi codi o fewn yr Is-adran Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol ar gyfer unigolyn profiadol a brwdfrydig i ymuno â'r Tîm.

Bydd rôl y Syrfëwr Adeiladu yn gyfrifol am gyflawni tasgau yn unol â gofynion y Rheolwr Tîm Cynorthwyol (Asedau Adeiladu).

Hysbyseb Lawn

Mae swydd barhaol wedi codi o fewn yr Is-adran Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol ar gyfer unigolyn profiadol a brwdfrydig i ymuno â'r Tîm.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gynorthwyo'r Rheolwr Tîm Cynorthwyol i ddatblygu arbenigedd yr Adran ym mhob agwedd o gynnal a chadw eiddo strwythurol, gan gynorthwyo gyda datblygu arbenigedd yr adran mewn gweithdrefnau cynnal a chadw cynlluniedig/adweithiol a rheoli asbestos o ran eiddo o fewn yr Awdurdod.

Bydd y rôl yn cynnwys gwneud gwaith dylunio mewn perthynas â mân waith a phrosiectau cyfalaf sy'n benodol i asedau adeiladu mewn eiddo newydd ac eiddo wedi'i adnewyddu mewn amrywiol bortffolios o fewn yr Awdurdod. Bydd hyn yn cynnwys cynnal arolygon adeiladau gan gynnwys paratoi lluniadau / manylebau yn unol â gofynion Syrfewyr Adeiladu a gosod gorchmynion perthnasol i gydymffurfio â Pholisi Caffael yr Awdurdod. Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gyda chleientiaid, contractwyr, a thimau technegol amrywiol eraill. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Adfywio i reoli cydymffurfiaeth adeiladau â thelerau cytundebol cytundebau Tenantiaeth, a rhoi gwybod am achosion o dorri amodau i uwch reolwyr ar gyfer camau dilynol. Bydd hefyd yn golygu gweithio'n agos gyda'r holl arweinwyr portffolio eraill h.y. Addysg, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ac ati.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn arwain ar ddatblygu arbenigedd yr Is-adran ym mhob agwedd ar brofion statudol er mwyn gweithredu trefn brofi, fel bod yr Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol.

Mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.

Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trwyadl yn ystod y broses recriwtio.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.

Dyddiad Cau: 08/08/2024 - 12:00am, hanner nos

Dyddiad Cyfweld: I'w gadarnhau